**CYFLWYNWYD YM MWRDD LLYWODRAETHWYR MET CAERDYDD: TACHWEDD 2023**

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil: 2022/23**

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn hollol ymroddedig i gefnogi'r lefelau uchaf o uniondeb ymchwil a llywodraethu yn ei holl weithgarwch ymchwil. Fel un sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, mae Met Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ei staff a'i myfyrwyr yn cynnal safonau rhagorol o ran ymarfer academaidd, uniondeb a gonestrwydd ym mhob agwedd ar ymchwil.

1.2 Fel llofnodwr i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal a chadw at yr ymrwymiadau sydd ynddo. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi safonau uchel o uniondeb ymchwil, mae'r Concordat yn argymell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn cyflwyno datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu eu hunain sy'n:

- Rhoi crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth o faterion uniondeb ymchwil, a'r defnydd ohonynt.
- Rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ganddynt ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn gadarn, yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.
- Rhoi datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gafodd eu cynnal.

1.3 Dyma 6ed datganiad blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil ac mae'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2022/23. Mae gwybodaeth fanwl am ddull cyffredinol y Brifysgol o ymdrin ag uniondeb ymchwil a chamymddwyn ymchwil wedi'i chynnwys yn Natganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol a gyhoeddwyd yn 2018 ac sydd ar gael ar wefan Met Caerdydd[1].

1.4 Yn unol ag argymhelliad y Concordat, bydd y datganiad hwn ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol.

## 2. Crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a gyflawnwyd i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth a chymhwyso materion uniondeb ymchwil

2.1 Mae uniondeb ymchwil yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Brifysgol ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Dyma'r gweithgareddau penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yw:

- Mae modiwl hyfforddiant moeseg ar-lein wedi'i lansio, ac mae'n orfodol i staff academaidd craidd ei gwblhau. Cynlluniwyd y modiwl i hyrwyddo pwysigrwydd moeseg mewn ymchwil ac egluro prosesau cymeradwyo moeseg. Bydd y modiwl newydd yn cael ei gynnwys yn y pecynnau hyfforddiant sefydlu gorfodol a gynigir gan Met Caerdydd a

---

1 http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Research%20Integrity/Annual_statement_on_research_integrity_June18.pdf

bydd gofyn i staff academaidd craidd newydd gwblhau'r modiwl o fewn pythefnos ar ôl ymuno.

- Mae'r gwaith o ddatblygu system cymeradwyo ceisiadau moeseg ar-lein wedi parhau eleni. Mae gwaith paratoi helaeth ar ddatblygu prosesau wedi'i wneud a fydd yn bwydo i mewn i gam gweithredu'r system.
- Cafodd y system o gymeradwyo protocol ei hadolygu a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol ym mis Tachwedd 2022.
- Cafodd prosesau ar gyfer datganoli prosesau moeseg i'n sefydliadau partner TNE eu hadolygu a'u cymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol ym mis Mai 2023.
- Mae'r ffurflen adrodd y mae Ysgolion wedi'i defnyddio'n hanesyddol i adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Moeseg y Brifysgol ar weithgarwch yn y flwyddyn academaidd flaenorol wedi cael ei hadolygu a'i diwygio i ymgorffori llawer o'r safonau penodol a fesurwyd gan offeryn archwilio ARMA/UKRIO. Bydd y fformat diwygiedig ar gyfer adolygiadau blynyddol yn cael ei weithredu'n ffurfiol yn gynnar yn 2023/24 pan fydd Ysgolion yn adrodd ar 2022/23.
- Datblygwyd rhaglen waith gyda'r bwriad o wella hyfforddiant a datblygiad staff sy'n gysylltiedig â moeseg. Bydd hyn yn cynnwys gwelliannau i'r adnodd moeseg a llywodraethu ar-lein mewnol.

## 3. Prosesau sydd ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn

3.1 Cafodd Polisi'r Brifysgol ar Gamymddwyn Ymchwil ei adolygu a'i ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi ym mis Rhagfyr 2021.

3.2 Mae'r broses ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil ym Met Caerdydd yn parhau i fod yn broses dau gam:

- CAM 1: Gwneir honiadau o gamymddwyn ymchwil yn ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Ymchwil (CY) a fydd yn cynnal ymchwiliad cychwynnol i ganfod a oes achos prima facie o gamymddwyn yn bodoli. Lle nad yw'n briodol i'r CY gynnal yr ymchwiliad, bydd hwn yn cael ei gynnal gan aelod arall o staff, a enwebir gan y Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi.
- CAM 2: Lle tybir bod achos prima facie yn bodoli, caiff yr achos ei gyfeirio at y Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi a all gymryd camau ar unwaith neu gychwyn ymchwiliad pellach i'r honiad. Os oes angen ymchwilio ymhellach, cânt eu cynnal naill ai gan y Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi neu gan unigolyn priodol a benodir gan y Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi

3.3 Mae fersiwn gyfredol y Polisi Camymddwyn Ymchwil i'w weld ar Hyb Polisïau Met Caerdydd.

## 4. Datganiad ar unrhyw ymchwiliad ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gafodd ei gynnal

4.1 Ni dderbyniwyd unrhyw honiadau o dan Weithdrefn Camymddwyn Ymchwil y Brifysgol yn ystod 2022/23.